Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus / Public Accounts Committee
PAC(5)-23-17 P1

Gorffennaf 2017

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cyllid gan Lywodraeth Cymru i Ynni Sir Gâr Cyf

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol
â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Roedd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Ian Hughes ac
Emma Woodcock o dan gyfarwyddyd Mike Usher.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Am beth y mae'r adroddiad hwn yn sôn | 6 |
| | Prif Gasgliadau | 9 |
| | Argymhellion | 11 |
| 1 | Mae tyrbin gwynt CELT2 yn un o dri chynllun gan Ynni Sir Gâr Cyf a gefnogir gan Lywodraeth Cymru | 12 |
| 2 | Roedd Panel Annibynnol yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi cymeradwyo benthyciad tuag at adeiladu CELT2 gyda nifer o amodau | 15 |
| 3 | Ni wnaeth yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni liniaru'r risgiau gwrthdaro budd yn foddhaol cyn i Lywodraeth Cymru ryddhau'r cyllid ar gyfer CELT2 | 17 |
| | Er i'r risg gael ei nodi'n glir, ni wnaeth yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni na Ynni Sir Gâr Cyf roi mesurau effeithiol yn eu lle i liniaru'r gwrthdaro rhwng y ddwy rôl oedd gan Mr Steve Hack | 20 |
| | Nid oedd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni na Ynni Sir Gâr Cyf wedi rhoi mesurau effeithiol yn eu lle i liniaru'r gwrthdaro rhwng y ddwy rôl oedd gan Mr Ferguson-Walker | 22 |
| | Ni wnaeth yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni graffu'r gwarged disgwyliedig ar gyfer cynlluniau manteision cymunedol | 24 |
| | Ni chafodd risg y gwrthdaro budd posib oedd yn gysylltiedig â chyflogaeth Dr Lewis fel rheolwr ar Gronfa Ynni Cymunedol ei nodi gan y Panel Annibynnol | 27 |

4 Fel perchennog y cynllun, roedd Llywodraeth Cymru wedi dibynnu gormod ar drefniadau'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar gyfer rheoli'r risgiau a nodwyd 28

5 Roedd y wybodaeth a roddwyd i'r Gweinidog er mwyn cytuno'r cyllid ar gyfer CELT2 yn anghyflawn ac anghytbwys 30

Atodiadau

Atodiad 1 – Ynni Sir Gâr Cyf 33

Atodiad 2 – cymorth gan Lywodraeth Cymru i gynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol drwy ei phartner cyflawni, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni 34

Atodiad 3 – trefn a dulliau ein harchwiliad 35

Atodiad 4 – amserlen 36

# Rhagarweiniad

## Am beth y mae'r adroddiad hwn yn sôn

1 Ar 25 Medi 2015, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol (ar y pryd) y byddai cwmni Ynni Sir Gâr Cyf[1] (busnes di-wneud-elw)yn derbyn cymorth ariannol o £810,000 gan Lywodraeth Cymru tuag at adeiladu tyrbin gwynt 500kW yn Salem yn Sir Gâr. Gelwir y tyrbin yn CELT2. Cafodd y pecyn cymorth ei ariannu gyda chyllid o Raglen Cymorth Ynni Adnewyddadwy Llywodraeth Cymru ac roedd yn cynnwys grant paratoadol o £25,000 ynghyd â benthyciad adeiladu (i'w dalu'n ôl) o £785,000.

2 Bu'r Rhaglen Cymorth Ynni Adnewyddadwy yn rhedeg rhwng 1 Ebrill 2015 a'r 31 Rhagfyr 2015 fel trefniant interim ar ôl i raglen pum mlynedd 'Ynni'r Fro' ddod i ben, oedd hefyd wedi cefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol. Y rhaglen lawn i olynu Ynni'r Fro yw'r Gwasanaeth Ynni Lleol, a ddechreuodd ar 1 Ionawr 2016 (Atodiad 2). Mae'r rhaglenni hyn i gyd wedi cael eu rhedeg gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni[2], sy'n gweithio dan gontract i Lywodraeth Cymru.

3 Pwrpas craidd y rhaglenni hyn yw cynyddu nifer y gosodiadau ynni adnewyddadwy bach, lleol sydd yng Nghymru a chadw'r manteision yn y cymunedau eu hunain. Y bwriad oedd bod y rhaglenni'n hyblyg o ystyried pa mor gyflym y mae'r sector ynni adnewyddadwy yn newid.


4 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno newidiadau i'r cymorth a roddir i brosiectau ynni adnewyddadwy gan gynnig llai o gyllid a chyflwyno cap ar faint o brosiectau a allai dderbyn cymorth ar bob lefel, a dod â'r broses 'cyn-achredu' i ben[3]. Oherwydd bod gan grwpiau cymunedol gyfnod cyn-achredu a oedd, yn flaenorol, chwe mis yn hirach na datblygwyr masnachol, mae dileu'r broses wedi creu cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd y prosiectau masnachol drosodd. Roedd y cyllid gan Lywodraeth Cymru felly'n canolbwyntio ar fanteisio ar y cyfleoedd hyn er mwyn cynyddu nifer y gosodiadau ynni cymunedol ar draws Cymru.

5 Prosiect masnachol oedd CELT2 a roddwyd ar werth, ar bwynt ei adeiladu, a'i gynnig i gwmni Ynni Sir Gâr Cyf. Roedd y datblygwr o Sir Gâr, Seren Energy, wedi derbyn cynigion am y prosiect gan gwmnïau masnachol ond rhoddwyd y cynnig cyntaf i Ynni Sir Gâr Cyf pe gallai'r cwmni ariannu'r costau adeiladu a thalu pris cymharol. I wneud hynny, roedd angen benthyciad pontio ar Ynni Sir Gâr Cyf i brynu'r tyrbin, oedd eisoes wedi'i archebu, ar gyfer CELT2.

1 Mae Atodiad 1 yn rhoi mwy o fanylion am Carmarthenshire Energy Ltd
2 Cwmni cyfyngedig drwy warant, sy'n cyflawni rhaglenni ar gyfer llywodraeth ac yn darparu gwasanaeth ymgynghorol i fusnesau yn y DU ac i gwmnïau rhyngwladol.
3 Lle mae prosiectau sydd wedi cael caniatâd cynllunio'n gallu cofrestru am lefel y cyllid sydd ar gael ar y pwynt hwnnw'n hytrach na'r lefel sydd ar gael pan fo'r prosiect yn weithredol.

6 Talwyd y pris o £1.5 miliwn[4] am brynu CELT2 gyda chymysgedd o gyllid preifat a chyllid gan Lywodraeth Cymru. Dros amser, disgwylir i berchnogaeth gymunedol gynyddu drwy gynigion cyfranddaliadau i gymryd lle'r cyllid gwreiddiol. Mae Dangoslun 1 yn dangos y cyllid gwreiddiol ar gyfer CELT2 a'i ffrwd refeniw ddisgwyliedig.

Dangoslun 1: y cyllid gwreiddiol ar gyfer CELT2 a'i ffrwd refeniw ddisgwyliedig




Ffynhonnell: Rhagamcanion y Swyddog Datblygu Technegol

7 Roedd bid Ynni Sir Gâr Cyf am gyllid i Lywodraeth Cymru'n rhagweld y byddai CELT2 yn cynhyrchu incwm o £10.5 miliwn dros 25 mlynedd y prosiect, drwy gynhyrchu trydan. Amcangyfrifwyd hefyd y byddai £2.6 miliwn o warged ariannol i gefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol lleol.

8 Ym mis Medi 2016 daeth tyrbin gwynt CELT2 yn weithredol. Mae'r trydan a gynhyrchir ganddo'n bwydo i'r Grid Cenedlaethol yn gyfnewid am refeniw sy'n seiliedig ar Dariff Cyflenwi Trydan[5]. Mae'r cwmni ar y blaen gyda thalu'r benthyciad gan Lywodraeth Cymru yn ôl. Mae gwarged ariannol o'r prosiect bellach yn cael ei fuddsoddi mewn cynlluniau lleol fel waliau cerrig sychion, paneli solar a storfa fatri yn y neuadd bentref gyfagos, gweler Dangoslun 2.

4 Rhagamcan ariannol y Cynnig Cyfranddaliad yn Ebrill 2016
5 Rhaglen gan Lywodraeth y DU yw'r cynllun Tariff Cynhyrchu Trydan (FIT) i annog prosiectau cynhyrchu trydan carbon isel adnewyddadwy bychain. Mae angen i gwmnïau a drwyddedir o dan y FIT wneud taliadau tariff penodedig am y trydan sy'n cael ei gynhyrchu a'i allforio i'r Grid Cenedlaethol.

Dangoslun 2: mae Neuadd Gymuned Salem wedi elwa o baneli solar, porth gwefru ceir a chapasiti Batri Ion Lithiwm



Ffynhonnell: Ynni Sir Gâr Cyf

9 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi derbyn gohebiaeth gan breswylwyr lleol a'r Aelod Cynulliad lleol yng nghyswllt y cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru i gwmni Ynni Sir Gâr Cyf. Mae'r ohebiaeth yn lleisio nifer o bryderon ynghylch defnyddio arian cyhoeddus i gefnogi'r prosiect CELT2. Yn benodol maent yn:

a lleisio amheuaeth ynghylch faint y mae preswylwyr lleol yn debygol o elwa o unrhyw warged ariannol a ddaw o refeniw'r tyrbin gwynt;

b awgrymu y byddai cyfarwyddwr ac un o sefydlwyr Ynni Sir Gâr Cyf yn elwa'n bersonol oherwydd ei fuddiannau yn y cwmnïau oedd yn gyfrifol am ddatblygu, gwerthu a chynnal a chadw safle CELT2. Fodd bynnag, er hynny roedd Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r cymorth ariannol er ei bod yn ymwybodol o'r elw personol posib; a

c roeddent hefyd wedi nodi bod y Swyddog Datblygu Technegol a ddyrannwyd i Ynni Sir Gâr Cyf o dan raglenni cymorth Llywodraeth Cymru hefyd yn gyfarwyddwr ac un o sefydlwyr y cwmni. Roedd y preswylwyr lleol yn cwestiynu pa mor wrthrychol a diduedd oedd y swyddog hwn o ystyried ei ddwy rôl.

10 Dangosodd ein gwaith archwilio rhagarweiniol fod materion gwrthdaro budd yn sicr yn codi gyda rhai aelodau o Ynni Sir Gâr Cyf a bod pryderon cyfreithlon ynghylch sut yr ymddengys y deliwyd â'r mater. Yng ngoleuni'r pryderon hyn, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol wneud archwiliad gwerth am arian o'r prosiect.

11 Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar sut y mae Llywodraeth Cymru wedi rheoli'r risgiau a ddaeth i'r amlwg gyda'r prosiect, gan gynnwys a gafodd y materion gwrthdaro budd eu rheoli'n briodol.

12 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cefnogi dau gynllun arall gan Ynni Sir Gâr Cyf (CELT1 ac Allt Cafan). Hyd yma mae'r cyllid a roddwyd i'r prosiectau hyn wedi cynnwys grantiau paratoadol o £14,114 i'r naill a £34,037 i'r llall. Oherwydd nad yw'r ddau gynllun hwn wedi dechrau eto, nid ydym wedi edrych arnynt yn fanwl.

13 Mae Atodiad 3 yn egluro trefn a dulliau ein harchwiliad.

## Prif Gasgliadau

14 Mae'r tyrbin gwynt CELT2 wedi bod yn weithredol ers Medi 2016. Mae Ynni Sir Gâr Cyf eisoes wedi dechrau buddsoddi peth o'r gwarged ariannol mewn cynlluniau ynni adnewyddadwy lleol ac yn bwriadu gwneud hynny dros 25 mlynedd disgwyliedig y cynllun. Bu'n bosib gwneud hyn oherwydd y cymorth ariannol a dderbyniodd gan Lywodraeth Cymru. Heb y cymorth hwn, byddai CELT2 wedi mynd i ddwylo preifat. Mae Ynni Sir Gâr Cyf hefyd ar y blaen gyda thalu benthyciad Llywodraeth Cymru'n ôl.

15 Er bod y tyrbin wedi'i osod yn llwyddiannus ac yn weithredol, cawsom fod nifer o wendidau yn y modd y mae'r prosiect yn cael ei lywodraethu, yn enwedig o ran ymdrin â'r gwrthdaro budd gwirioneddol a phosib.

16 Roedd Llywodraeth Cymru wedi dibynnu gormod ar drefniadau'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar gyfer rheoli'r risgiau gwrthdaro budd a nodwyd yng nghais CELT2 am gyllid. Nid oedd y trefniadau'n foddhaol i liniaru'r risg i lefel dderbyniol. Roedd y wybodaeth a roddwyd i'r Gweinidog er mwyn cytuno'r cyllid ar gyfer CELT2 yn anghyflawn ac anghytbwys.

17 Yn benodol, cawsom:

a Er bod yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi nodi nifer o risgiau oedd yn gysylltiedig â CELT2 a oedd angen eu lliniaru, ni cheisiodd swyddogion Llywodraeth Cymru ddilysu effeithiolrwydd trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli'r risgiau hyn. Ni chafodd y risgiau gwrthdaro budd eu lliniaru i lefel foddhaol cyn rhyddhau'r cyllid cyhoeddus i Ynni Sir Gâr Cyf.

b Roedd y cyflwyniad ffurfiol a baratowyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru'n gofyn i'w Gweinidog gytuno'r pecyn cyllid arfaethedig yn anghyflawn ac anghytbwys. O ran y cyngor ynddo:

- nid oedd yn sôn am y materion gwrthdaro budd gwirioneddol a phosib sylweddol oedd yn codi;
- nid oedd felly'n egluro sut yr oedd swyddogion wedi lliniaru'r risgiau hyn, a risgiau eraill, i lefel dderbyniol; a
- roedd wedi'i ategu gan ragamcan o £2.6 miliwn o warged cymunedol oedd yn seiliedig ar fodel rhagamcan a luniwyd gan Swyddog Datblygu Technegol oedd ei hun â gwrthdaro budd fel un o gyfarwyddwyr Ynni Sir Gâr Cyf.

c Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod Llywodraeth Cymru wedi gwerthuso'r rhagamcan gwarged o £2.6 miliwn yn annibynnol nac ychwaith wedi ceisio tynnu sylw'r Gweinidog at ystod o ganlyniadau posib. Yn bwysig, roedd y rhagamcan hwn tua dwywaith y ffigur o £1.3 miliwn a ddilyswyd yn annibynnol ac a ddefnyddiwyd gan Ynni Sir Gâr Cyf ei hun fel rhan o'r cynnig cyfranddaliadau cyhoeddus yn fuan wedyn.

18 Er na chafodd y gwrthdaro budd ei reoli'n dda fel rhan o lywodraethu'r prosiect hwn, ni chawsom fod unrhyw un o'r unigolion dan sylw wedi ymddwyn yn amhriodol yng nghyswllt unrhyw fater lle'r oedd ganddynt fudd yn gwrthdaro.

## Argymhellion

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Dylai Llywodraeth Cymru fodloni ei hun bod gan ei phartneriaid cyflawni drefniadau effeithiol ar gyfer adnabod a lliniaru risg. |
| A2 | Dylai Llywodraeth Cymru annog yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni i rannu arferion llywodraethu ariannol da gyda phrosiectau sy'n derbyn cymorth o dan raglen y Gwasanaeth Ynni Lleol. |
| A3 | Dylid ehangu'r hyfforddiant a roddir i Swyddogion Datblygu Technegol sy'n gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru i gynnwys llywodraethu ariannol ynghyd ag adnabod a rheoli gwrthdaro budd. |
| A4 | Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob Cyflwyniad i Weinidogion yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Er enghraifft; lle mae gwrthdaro budd wedi'i adnabod, dylai Cyflwyniadau i Weinidogion gyfeirio atynt a nodi sut y bwriedir lliniaru / rheoli'r risgiau cysylltiedig. |
| A5 | Lle gellir mesur canlyniadau prosiect, ond eto lle maent yn ansicr neu lle gallent amrywio'n sylweddol, dylai Cyflwyniadau i Weinidogion nodi ar ba sail y gwneir y rhagamcanion ariannol a ddefnyddir a, lle bo hynny'n briodol, disgrifio'r ystod lawn o ganlyniadau posib ar sail dadansoddiad sensitifrwydd. |

Rhan 1

Mae tyrbin gwynt CELT2 yn un o dri chynllun gan Ynni Sir Gâr Cyf a gefnogir gan Lywodraeth Cymru



1.1 Ers Ionawr 2010 mae Llywodraeth Cymru, drwy ei chynllun Ynni'r Fro a'i rhaglen Cymorth Ynni Adnewyddadwy, wedi rhoi cymorth ariannol a thechnegol i Ynni Sir Gâr Cyf ar gyfer tri phrosiect gwahanol. Crynhoir y rhain isod yn Dangoslun 3:

Dangoslun 3: prosiectau Ynni Sir Gâr Cyf a gefnogir gan Lywodraeth Cymru



Tyrbin gwynt **CELT1** yn Llanarthne

Statws: Caniatâd cynllunio heb ei roi felly nid aeth y cynllun yn ei flaen

Grant paratoadol o £14,114



Cynllun trydan dŵr **Allt Cafan**, Pentrecwrt

Statws: Mae Ynni Sir Gâr Cyf wedi cytuno[1] ar benawdau telerau prydles ac mae'r cynllun yn dal i fod yn y cam datblygu

Grant paratoadol o £34,037



Tyrbin gwynt **CELT2** yn Salem

Statws: yn ei le ac yn cynhyrchu trydan

15 Gorff 2015: Grant paratoadol o £25,000

12 Awst 2015: Benthyciad o £785,000

Nodyn

1 Penawdau Telerau yw cyfres o egwyddorion y cytunir arnynt cyn llofnodi'r contract ac y mae'r partïon yn bwriadu iddynt gael eu hadlewyrchu yn y contract ysgrifenedig. Maent yn nodi beth yw sail y cytundeb yn fras. Mae'n bwysig cofnodi trafodaethau contract fel bod cyn lleied o faterion annisgwyl â phosib yn codi pan gynhyrchir drafft cyntaf y contract.

Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

1.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth i brosiectau ynni cymunedol a lleol ers 2010. Roedd y rhaglen Ynni'r Fro'n rhoi grantiau datblygu, grantiau adeiladu ynghyd â chymorth gan Swyddogion Datblygu Technegol.

### Rôl gyffredinol y Swyddog Datblygu Technegol

Mae'r rôl hon yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru. Disgrifir y rôl fel a ganlyn ar hyn o bryd:

'Mae Swyddogion Datblygu'n gweithredu fel y cyswllt 'ar y ddaear' gyda sefydliadau sy'n datblygu prosiectau gan roi cyngor a chymorth a rhoi mynediad at gyllid gan raglenni Ynni Lleol. Fodd bynnag, ni fydd y Swyddog yn cyflawni ystod eang o weithgareddau i lenwi'r bwlch mewn capasiti ac adnoddau yn y gymuned neu mewn cwmni bach neu ganolig, ac ni fydd yn gwneud gwaith rheoli prosiect manwl na'n gweithredu fel cynrychiolydd neu lofnodwr ar gyfer grwpiau wrth ddelio â chyrff fel rheoleiddwyr, cyfreithwyr neu ddarparwyr cyllid.'

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

1.3 Daeth y rhaglen Ynni'r Fro, oedd yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, i ben ym mis Mawrth 2015. Parhawyd gyda rhaglen gymorth interim (y Rhaglen Cymorth Ynni Adnewyddadwy) tra bod rhaglen i'w holynu, y Gwasanaeth Ynni Lleol, yn cael ei chyd-ddatblygu gyda'r sector gan Lywodraeth Cymru a'i lansio yn Ionawr 2016. Fel gyda'r rhaglenni a ddaeth o'i blaen, mae'r Gwasanaeth Ynni Lleol yn cael ei redeg gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni dan gontract i Lywodraeth Cymru.

Rhan 2

# Roedd Panel Annibynnol yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi cymeradwyo benthyciad tuag at adeiladu CELT2 gyda nifer o amodau



2.1 Ym mis Gorffennaf 2015, roedd Ynni Sir Gâr Cyf wedi gofyn i'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni am £810,000 o'r Rhaglen Cymorth Ynni Adnewyddadwy tuag at adeiladu tyrbin gwynt CELT2. Roedd yr arian yn cynnwys grant paratoadol o £25,000 a benthyciad cyfalaf o £785,000. Roedd angen y grant i dalu ffioedd cyfreithiol oedd yn gysylltiedig â phrynu'r tyrbin ac i weinyddu a hyrwyddo cynnig cyfranddaliadau cyhoeddus. Roedd taer angen y benthyciad ar Ynni Sir Gâr Cyf i brynu'r tyrbin (a fyddai fel arall wedi cael ei werthu i ddatblygwr masnachol) ac i barhau gyda'r gwaith o ddatblygu'r safle mewn pryd i elwa o'r tariff uwch.

2.2 Roedd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi sefydlu Panel Annibynnol (ar gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru) fel corff i benderfynu ar geisiadau am fenthyciadau a grantiau llai o dan y rhaglen. Roedd y Panel yn cynnwys arbenigwyr cyfreithiol, cyfrifyddu a thrydydd sector ynghyd â swyddogion o Lywodraeth Cymru. Roedd Swyddogion Datblygu Technegol hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Panel i roi cyngor arbenigol ar geisiadau na chawsant ran ynddynt. Roedd gan y Panel awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo ceisiadau hyd at £250,000, ac roedd hefyd yn ystyried ceisiadau mwy (fel yr elfen fenthyciad ar gyfer prosiect CELT2) cyn i swyddogion Llywodraeth Cymru eu cyflwyno i'w Gweinidog am gymeradwyaeth.

2.3 Cyfarfu'r Panel ar 27 Gorffennaf 2015 i ystyried ac asesu'r ceisiadau am gymorth grant a benthyciad ar gyfer CELT2. Roedd papur briffio wedi'i baratoi ar gyfer y Panel gan swyddogion o'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Roedd y papur hwnnw'n nodi'r materion llywodraethu oedd yn codi a'r risgiau oedd yn gysylltiedig â'r cais a hefyd yn cynnig nifer o fesurau y gellid eu cymryd i liniaru'r risgiau hyn i lefel dderbyniol.

2.4 Roedd yn glir i aelodau'r Panel bod prosiect CELT2 yn debygol o lwyddo heb gyllid gan Lywodraeth Cymru oherwydd roedd gan fuddsoddwyr preifat eisoes ddiddordeb yn ei brynu. Fodd bynnag, roedd y papur i'r Panel yn nodi bod hwn yn gyfle da i helpu grŵp cymunedol i brynu'r hawliau i safle gyda chaniatâd llawn. Roedd sicrhau manteision y cynllun i'r gymuned leol felly'n ffactor hollbwysig yn nhrafodaethau'r Panel.

2.5 Yn ei gyfarfod ar 27 Gorffennaf, penderfynodd y Panel gymeradwyo cyflwyno'r grant a'r benthyciad[6] i'r Gweinidog am gymeradwyaeth, ond gyda saith amod yn ymwneud yn bennaf ag amrywiol wiriadau ar agweddau ariannol y prosiect. Roedd y rhain yn cynnwys perchnogaeth gyfreithiol y tyrbin, sicrhau manteision i'r gymuned a gallu rheoli'r materion gwrthdaro budd yn foddhaol. Ystyrir y materion hyn yn rhan nesaf yr adroddiad hwn.

6 Roedd y benthyciad yn wreiddiol am 12 mis ond ers hynny mae wedi cael ei ail-negodi a'i drosglwyddo i Cyllid Cymru. Mae'r telerau ad-dalu'n cael eu cwrdd gan Carmarthenshire Energy Limited.

# Rhan 3

## Ni wnaeth yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni liniaru'r risgiau gwrthdaro budd yn foddhaol cyn i Lywodraeth Cymru ryddhau'r cyllid ar gyfer CELT2



3.1 Roedd gan dri o aelodau sefydlu a Chyfarwyddwyr Ynni Sir Gâr Cyf (Mr Steve Hack[7], Mr Ben Ferguson-Walker[8] a'i Gadeirydd, Dr Neil Lewis) fuddiannau busnes oedd yn creu gwrthdaro gwirioneddol neu bosib â'u rôl fel Cyfarwyddwyr. Mae Dangoslun 4 yn crynhoi pob un o'r buddiannau hyn ynghyd â'u cysylltiadau unigol â'r tri chynllun gan Ynni Sir Gâr Cyf a dderbyniodd gymorth gan Lywodraeth Cymru.

3.2 Roedd y papur i'r Panel yn nodi'n gywir chwe risg sylweddol oedd yn gysylltiedig â'r cais am fenthyciad i CELT2, a bod angen lliniaru pob un ohonynt:

a **Amseru'r materion cyfreithiol**

Y risg i Lywodraeth Cymru pe na bai'r ddogfen Penawdau Telerau wedi'i throsi'n ddogfen oedd yn rhwymo'r partïon yn gyfreithiol, gan roi rheolaeth lawn o'r safle i Ynni Sir Gâr Cyf cyn rhyddhau'r cyllid.

b **Argaeledd cyllid**

- Roedd cyllid masnachol yn cael ei drafod gyda darpar-fenthycwyr ond nid oedd unrhyw gynigion pendant yn eu lle eto.
- Y posibilrwydd na ellid cyrraedd y targed o godi gwerth £500k o gyfranddaliadau cymunedol, ac os felly byddai angen i'r benthyciad gan Lywodraeth Cymru, oedd i'w dalu'n ôl ar ôl cwblhau'r prosiect, gael ei drosi'n ddyled fwy hirdymor.

c **Perchnogaeth o'r tyrbin ac adennill TAW**

Roedd angen i'r contract ar gyfer CELT2 fod rhwng cyflenwr y tyrbin (Enercon Ltd) a Ynni Sir Gâr Cyf, i roi syniad clir i Lywodraeth Cymru o'r hyn y byddai'n ei ariannu. Byddai hyn hefyd yn dileu unrhyw gyfyngiadau Treth ar Werth a allai godi.

ch **Risg gyda'r gwaith adeiladu**

Gallai problemau gyda chwblhau'r prosiect ar amser effeithio ar godi arian pellach, ac os felly byddai angen trosi'r benthyciad gan Lywodraeth Cymru, oedd i'w ad-dalu ar ôl cwblhau'r prosiect, yn ddyled fwy hirdymor.

d **Y pris a dalwyd am y tyrbin**

Byddai angen gwiriadau annibynnol i sicrhau bod y pris oedd yn cael ei dalu am y tyrbin, a'r breindaliadau i ddatblygwr y safle (Mr Hack) yn adlewyrchu pris marchnad teg.

dd **Gwrthdaro budd posib**

Byddai Mr Steve Hack, un o gyfarwyddwyr Ynni Sir Gâr Cyf, yn elwa'n bersonol oherwydd ei fuddiannau yn y cwmnïau oedd yn datblygu safle CELT2 ac yn gosod y tyrbin gwynt.

7 Mae Mr Hack wedi ymddiswyddo fel Cyfarwyddwr gyda Ynni Sir Gâr Cyf ers Gorffennaf 2016
8 Mae Mr Ferguson-Walker wedi ymddiswyddo fel Cyfarwyddwr gyda Ynni Sir Gâr Cyf ers Ionawr 2016

Dangoslun 4: buddiannau busnes y Cyfarwyddwyr yn y cynlluniau gan Ynni Sir Gâr Cyf a dderbyniodd gymorth gan Lywodraeth Cymru



**CELT1**

Datblygwr y cynllun yw Seren Energy. Mae Mr Hack yn gyfarwyddwr ar y cwmni.

Mr Ferguson-Walker yw'r Swyddog Datblygu Technegol wedi'i gyflogi o dan raglen gymorth Llywodraeth Cymru.



**Allt Cafan**

Mr Hack sydd piau'r tir ac mae'n datblygu'r cynllun drwy ei gwmnïau Seren.

Mr Ferguson-Walker yw'r Swyddog Datblygu Technegol wedi'i gyflogi o dan raglen gymorth Llywodraeth Cymru.



**CELT2**

Datblygwr y cynllun yw Seren Energy a gweithredwr y safle yw Seren Renewables. Mae Mr Hack yn Gyfarwyddwr ar y ddau gwmni.

Mr Ferguson-Walker yw'r Swyddog Datblygu Technegol wedi'i gyflogi o dan raglen gymorth Llywodraeth Cymru.

Mae gan **Dr Neil Lewis** rôl fel Rheolwr ar Gronfa Ynni Cymunedol sy'n darparu benthyciadau tymor byr i gynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol ac a reolir gan Fanc Cymunedol di-wneud-elw. Roedd y Banc Cymunedol hwn yn fenthycwr a gymrodd ran mewn trafodaethau gyda Ynni Sir Gâr Cyf i sicrhau benthyciad ôl-adeiladu.

Ffynhonnell: Datganiadau Ynni Sir Gâr Cyf

3.3 Er ein bod yn fodlon bod y pum risg gyntaf wedi cael eu lliniaru'n briodol, yn ein barn ni nid yw'r risg 'gwrthdaro budd posib' wedi cael ei lliniaru'n foddhaol. Dylai'r papur i'r Panel fod wedi cyfeirio at wrthdaro budd a allai godi gyda Dr Lewis ac at y gwrthdaro budd gwirioneddol oedd yn codi gyda Mr Hack a Mr Ferguson-Walker.

## Er i'r risg gael ei nodi'n glir, ni wnaeth yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni na Ynni Sir Gâr Cyf roi mesurau effeithiol yn eu lle i liniaru'r gwrthdaro rhwng y ddwy rôl oedd gan Mr Steve Hack

3.4 Roedd y papur i'r Panel Annibynnol yn nodi y byddai Mr Hack yn elwa'n bersonol o unrhyw gyllid a fyddai'n cael ei roi tuag at brosiect CELT2 gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn adlewyrchu ei rôl fel Cyfarwyddwr ar Seren Energy Limited a hefyd ar Seren Renewables Limited, ac yn codi oherwydd:

- a Seren Energy oedd wedi caffael y tyrbin – roedd yn bwriadu ei werthu ymlaen i Ynni Sir Gâr Cyf ac yn bwriadu rhoi benthyciad pontio i ariannu'r trafodiad busnes hwn;
- b Roedd Ynni Sir Gâr Cyf wedi cytuno i dalu breindal blynyddol i Seren Renewables o'r elw a fyddai'n dod o'r incwm gwerthu trydan; a
- c Contractiwyd Seren Renewables i weithredu'r safle a chynnal a chadw'r tyrbin.

3.5 Dywedodd y papur i'r Panel fod yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi'i sicrhau na chafodd Mr Hack ran ym mhenderfyniadau Ynni Sir Gâr Cyf. Roedd y papur hefyd wedi nodi'r mesurau ychwanegol canlynol y gellid eu cymryd i liniaru'r risg oedd yn codi o wrthdaro buddiannau Mr Hack:

- a cael gafael ar dystiolaeth i gefnogi'r sicrwydd a roddwyd na chafodd ran ym mhenderfyniadau Ynni Sir Gâr Cyf;
- b cael cysur o'r ffaith na fyddai'n rhan o unrhyw benderfyniad yn ymwneud â dosbarthu manteision i'r gymuned yn y dyfodol; a
- c y gellid gofyn iddo sefyll i lawr o'i rôl gyda chwmni Ynni Sir Gâr Cyf.

Wrth argymell cymeradwyo'r cyllid yn amodol, roedd y Panel wedi gofyn bod cytundeb y benthyciad yn cynnwys amod penodol bod 'yn rhaid i'r derbynnydd ddangos tystiolaeth ar gyfer delio'n foddhaol â gwrthdaro budd gyda'r penderfyniad hwn a phenderfyniadau eraill posib yn y dyfodol'. Fodd bynnag, ni ofynnodd y Panel i Mr Hack sefyll i lawr o'i rôl gyda Ynni Sir Gâr Cyf.

3.6 Dywedodd Mr Ferguson-Walker wrthym ei fod wedi gwneud yr hyn a allai (fel y Swyddog Datblygu Technegol yn gweithio gyda Ynni Sir Gâr Cyf) i sicrhau na fyddai Mr Hack yn rhan o unrhyw benderfyniadau allweddol lle'r oedd ganddo fudd busnes personol. Cawsom hefyd wybod gan Dr Lewis, Cadeirydd Ynni Sir Gâr Cyf, y gofalwyd i eithrio Mr Hack o bob penderfyniad allweddol lle'r oedd ganddo fudd busnes personol.

3.7 Fe wnaethom ofyn i'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni sut yr oedd wedi bodloni ei hun bod gwrthdaro budd yn cael ei reoli'n effeithiol gan Ynni Sir Gâr Cyf. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym ei bod wedi adolygu cofnodion cyfarfodydd Ynni Sir Gâr Cyf i gael y sicrwydd angenrheidiol.

3.8 Rydym wedi adolygu cofnodion Ynni Sir Gâr Cyf rhwng 10 Ebrill 2013 a'r 15 Mehefin 2016[9] ein hunain i sefydlu a oeddent yn cefnogi'r sicrwydd y gofynnodd y Panel amdano. Fodd bynnag, yn groes i arferion llywodraethu da:

a cawsom nad oedd eitem sefydlog ar ddechrau pob cyfarfod lle mae angen i gyfarwyddwyr ddatgan budd mewn eitemau ar yr agenda;

b roedd cofnodion y cyfarfodydd wedi cofnodi 28 achlysur pryd yr arhosodd Mr Hack yn rhan o drafodaeth y cyfarfodydd er bod ganddo wrthdaro budd yn CELT1, Allt Cafan a CELT2; a

c ar bob un o'r 28 achlysur hwnnw, nid oedd y cofnodion yn dweud dim bron am y drafodaeth a gafwyd ar y tri phrosiect.

Dim ond chwe gwaith y gwnaethom nodi fod Mr Hack wedi gadael y cyfarfod pan oedd CELT1, Allt Cafan a CELT2 yn cael eu trafod.

3.9 Daethom felly i'r casgliad na fydda wedi bod yn bosib i'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni dderbyn sicrwydd boddhaol o'i hadolygiad ei hun o'r cofnodion bod Ynni Sir Gâr Cyf yn wir wedi delio'n effeithiol â gwrthdaro budd Mr Hack. Fodd bynnag, yn bwysig, ni welsom unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod Mr Hack wedi ymddwyn yn amhriodol yng nghyswllt unrhyw fater lle'r oedd ganddo fudd personol.

3.10 Rhoddodd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni gopi o'i 'Pholisi Gwrthdaro Budd' ei hun i Ynni Sir Gâr Cyf ar gyfer ei fabwysiadu, i helpu'r cwmni i gryfhau ei lywodraethu yn y cyswllt hwn. Fodd bynnag, ni chafodd hyn ei wneud tan fis Mawrth 2016, fisoedd lawer ar ôl i Ynni Sir Gâr Cyf dderbyn yr arian benthyciad gan Lywodraeth Cymru ar 8 Rhagfyr 2015. Mabwysiadodd Ynni Sir Gâr Cyf y polisi yn y mis canlynol, yn Ebrill 2016.

9 13 Ebrill 2013 – dyddiad derbyn y cofnodion cyntaf, a'r 15 Mehefin 2016 – dyddiad y cyfarfod olaf cyn agor CELT2

3.11 Mae'r polisi'n cynnwys trothwy o £100,000 oedd wedi'i fabwysiadu gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar gyfer datgelu budd personol mewn cyfarfodydd. Cafodd hwn hefyd ei fabwysiadu heb ei newid gan Ynni Sir Gâr Cyf. Yn ein barn ni, mae £100,000 yn drothwy datgelu llawer rhy uchel i unrhyw fusnes di-wneud-elw ei fabwysiadu. Roedd yn golygu mewn gwirionedd na chafodd unrhyw fudd oedd wedi'i ddatgelu gan y cyfarwyddwyr (gan gynnwys y Swyddog Datblygu Technegol) yng nghyswllt gwaith a wnaed gan eu cwmnïau eu hunain, neu gwmnïau sy'n cael eu rhedeg gan eu perthnasau, ei adlewyrchu yn y cofnodion oherwydd bod y buddiannau hynny'n werth llai na'r trothwy o £100,000.

3.12 Ym mis Gorffennaf 2016, safodd Mr Hack i lawr am resymau personol fel Cyfarwyddwr gyda Ynni Sir Gâr Cyf. Gwnaeth hyn yn fuan ar ôl iddo ddatgan budd o dan y polisi Gwrthdaro Budd oedd wedi'i fabwysiadu'n ddiweddar gan Ynni Sir Gâr Cyf.

3.13 Mae Mr Hack wedi rhoi gwybod i ni, heb gael cynnig y safle a'r benthyciad tymor byr gan Seren Energy, y byddai'r prosiect CELT2 yn annhebygol o fod wedi cael ei adeiladu gan Ynni Sir Gâr Cyf. O ran y materion gwrthdaro budd, credai fod y rhain yn anochel oherwydd dim ond ychydig iawn o bobl brofiadol sydd yn Ne-Orllewin Cymru sy'n fodlon ac yn gallu gwirfoddoli.

## Nid oedd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni na Ynni Sir Gâr Cyf wedi rhoi mesurau effeithiol yn eu lle i liniaru'r gwrthdaro rhwng y ddwy rôl oedd gan Mr Ferguson-Walker

3.14 Roedd y papur i'r Panel yn nodi, ond ni chyflwynodd hynny fel risg oedd angen ei lliniaru, bod gan Mr Ferguson-Walker y ddwy rôl ganlynol:

a cyfarwyddwr oedd yn gweithio ac yn gyfrifol am faterion rheolaeth, llywodraethu a gweithredol Ynni Sir Gâr Cyf; a

b y Swyddog Datblygu Technegol a ddyrannwyd i Ynni Sir Gâr Cyf. Mr Ferguson-Walker oedd y cyswllt 'ar y ddaear' gyda'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a Llywodraeth Cymru. Roedd yn rhoi cyngor a chymorth fel y gallai Ynni Sir Gâr Cyf wneud ceisiadau am gyllid o gynlluniau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru.

3.15 Rydym wedi adolygu cofnodion cyfarfodydd bwrdd Ynni Sir Gâr Cyf a hefyd wedi cael cyfarfod â Mr Ferguson-Walker i drafod ei waith ar brosiect CELT2, ac yn fwy cyffredinol fel Swyddog Datblygu Technegol. Dywedodd Mr Ferguson-Walker wrthym fod diffyg capasiti sylweddol yn Ynni Sir Gâr Cyf, a'i fod felly wedi ymgymryd ag ystod eang o waith ar yr un pryd â bod yn Gyfarwyddwr a Swyddog Datblygu Technegol.

3.16 Er nad oedd Mr Ferguson-Walker yn un o'r llofnodwyr ar gyfer Ynni Sir Gâr Cyf, nodwn fod ei gyfeiriad e-bost wedi'i roi fel pwynt cyswllt ychwanegol ar y cais am fenthyciad cyfalaf i Lywodraeth Cymru, gan adlewyrchu ei statws fel un o'r sefydlwyr. Cyflwynwyd ei fodel llif arian ar gyfer CELT2 gyda'r cais am gyllid ar gyfer CELT2. Mae'r pethau hyn yn dangos y gwrthdaro rhwng ei rolau fel y Swyddog Datblygu Technegol ac un o Gyfarwyddwyr Ynni Sir Gâr Cyf.

3.17 Yn ystod ein gwaith maes, cawsom hefyd fod Mr Ferguson-Walker yn un o'r tri Chyfarwyddwr presennol ar gwmni o'r enw E.W. Energy Ltd. Nid yw'n ymddangos bod y cwmni hwn yn masnachu ar hyn o bryd. Mr Steve Hack a Seren Energy Ltd yw'r ddau gyfarwyddwr arall ar y cwmni hwn. Ni chafodd rôl Mr Ferguson-Walker fel cyfarwyddwr gydag E.W. Energy Ltd ei hadlewyrchu o gwbl yn unrhyw un o'r camau i'w lliniaru gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Eglurodd Mr Ferguson-Walker wrthym ei fod wedi'i benodi'n Gyfarwyddwr fel rhan o'i ddyletswyddau gwirfoddol fel Cyfarwyddwr Ynni Cymunedol gyda Pembrokeshire Ltd ac nad yw'n cynhyrchu unrhyw fudd personol iddo. Fodd bynnag, ystyriwn y dylai'r berthynas flaenorol rhwng Mr Ferguson-Walker (fel Swyddog Datblygu Technegol ar gyfer Ynni Sir Gâr Cyf) a Mr Hack (fel datblygwr CELT2) fod wedi cael ei hadnabod a'i hystyried gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni fel rhan o'i hasesiad risg cyffredinol o'r cais am gyllid ar gyfer CELT2.

3.18 Nodwn y sylw yn y papur i'r Panel y gofalwyd i osgoi unrhyw wrthdaro budd posib gan ei Swyddog Datblygu Technegol. Fodd bynnag, o ystyried ystod gweithgareddau Mr Ferguson-Walker, mae'n anodd gweld sut y gallai'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni fod wedi lliniaru'r risg yma'n effeithiol ac yntau'n parhau i fod yn y ddwy rôl. Yn ein barn ni felly, roedd angen dileu'r risg yma. Gallai hyn fod wedi digwydd pe bai Mr Ferguson-Walker wedi ymddiswyddo fel Cyfarwyddwr gyda Ynni Sir Gâr Cyf ac E.W. Energy Ltd, neu pe bai wedi rhoi'r gorau i fod yn Swyddog Datblygu Technegol ar gyfer Ynni Sir Gâr Cyf a phe bai Swyddog Datblygu Technegol arall wedi cael ei ddyrannu i'r prosiect.

3.19 Penderfynodd Mr Ferguson-Walker ymddiswyddo fel Cyfarwyddwr gyda Ynni Sir Gâr Cyf yn Ionawr 2016 gan dderbyn ei bod yn anodd, yn wir bron yn amhosib, parhau i gyflawni'r ddwy rôl. Roedd ei gyflogwr, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, wedi croesawu ei ymddiswyddiad ar y pryd. Nodwn fod yr Ymddiriedolaeth ers hynny wedi mabwysiadu polisi sy'n gwahardd ei Swyddogion Datblygu Technegol rhag gwasanaethu yn y capasiti hwn ar gwmnïau lle mae ganddynt naill ai rôl lywodraethu neu reoli. Fodd bynnag, yn bwysig, ni welsom unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod Mr Ferguson-Walker wedi ymddwyn yn amhriodol yng nghyswllt unrhyw fater lle'r oedd ganddo fudd personol.

3.20 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi rhoi gwybod i ni nad oedd Mr Ferguson-Walker, yn eu barn hwy, yn gweithredu fel y Swyddog Datblygu Technegol ar y prosiect CELT2 ei hun. Cawsom wybod ganddynt fod hyn oherwydd bod y prosiect eisoes wedi mynd heibio i'r cam datblygu pan gafodd ei gymeradwyo gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a'r Gweinidog. Maent yn dadlau mai dyma pam na wnaeth y Panel Annibynnol nodi hyn yn glir fel risg yr oedd angen ei lliniaru.

3.21 Yn ein barn ni, nid yw'r ddadl hon yn adlewyrchu cyd-destun ehangach y rôl anghyson barhaus sydd gan Mr Ferguson-Walker fel y Swyddog Datblygu Technegol ar gyfer Ynni Sir Gâr Cyf. Fel y gwelwn yn Dangoslun 4, mae CELT2 yn un o dri phrosiect gan Ynni Sir Gâr Cyf a dderbyniodd gyllid gan Lywodraeth Cymru.

3.22 Yn bwysig, dywedodd Fwrdd Ynni Sir Gâr Cyf wrthym y cawsant ar ddeall fod Mr Ferguson-Walker yn gweithredu fel Swyddog Datblygu Technegol ar bob un o'u prosiectau, gan gynnwys CELT2. Mae'r sefyllfa hon hefyd yn gyson â'r amrywiol ddogfennau cyfoes yr ydym wedi eu hadolygu, ac nid yw'r un ohonynt yn sôn nac yn awgrymu nad Mr Ferguson-Walker oedd y Swyddog Datblygu Technegol ar gyfer CELT2. Dengys adroddiad monitro prosiect yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni mai Mr Ferguson-Walker yw'r Swyddog Datblygu Technegol perthnasol ar gyfer y tri phrosiect a dderbyniodd gyllid gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys CELT2.

## Ni wnaeth yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni graffu'r gwarged disgwyliedig ar gyfer cynlluniau manteision cymunedol

3.23 Roedd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi cymeradwyo benthyciad Ynni Sir Gâr Cyf ar yr amod ei fod yn datblygu 'strategaeth manteision cymunedol'. Byddai'r strategaeth yn egluro sut y byddai'r gwarged y disgwylid ei gynhyrchu o refeniw'r prosiect yn cael ei ddyrannu i gronfa manteision cymunedol. Nid yw'r papur i'r Panel yn cyfeirio o gwbl at faint o warged mantais gymunedol a fyddai'n cael ei gynhyrchu, ond roedd y wybodaeth wedi'i chynnwys yn y papurau atodol a roddwyd i'r Panel:

'Dengys ein rhagamcanion y bydd gwarged sylweddol yn cael ei gynhyrchu o hyd a bwriadwn ei ddyrannu i gwrdd â'n hamcanion cyfansoddiadol, gan gynnwys drwy roi grantiau a benthyciadau di-log i ddeiliaid tai a busnesau lleol ar gyfer prosiectau micro-adnewyddadwy ac arbed ynni. Disgwylir i'r gwarged dros gyfnod y prosiect fod yn £2.6 miliwn.'

3.24 Roedd y gwarged disgwyliedig o £2.6 miliwn yn seiliedig ar fodel ariannol wedi'i ddatblygu gan Mr Ferguson-Walker, oedd yn ymgorffori ffactorau safonol ar gyflymder y gwynt a pherfformiad y tyrbin. Roedd Mr Ferguson-Walker wedi gwirio allbwn disgwyliedig y tyrbin a'r costau adeiladu arfaethedig gyda thîm technegol cwmni cyffelyb yn yr Alban. Fodd bynnag, dywedodd fod ei fodel wedi'i greu 'yn fwy ar gyfer dangosyddion datblygu cynnar nag ar gyfer prosesau diwydrwydd dyladwy ariannol manwl'. Cawsom fod y gwarged disgwyliedig hwn hefyd wedi'i ddyfynnu heb unrhyw gafeat yn y papur a gyflwynwyd i'r Gweinidog ac y cyfeiriwyd ato hefyd (fel 'hyd at £2.5 miliwn') mewn datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 25 Medi 2015 (gweler y blwch testun).

Mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Carl Sargeant, wedi cymeradwyo gwerth £938,000 o gyllid ychwanegol ar gyfer tri phrosiect lleol a chymunedol sy'n ymwneud ag ynni'r gwynt yn Ne Cymru.

Dydd Gwener 25 Medi 2015

Fel rhan o gymorth ariannol ar gyfer prosiectau ynni lleol, bydd Carmarthenshire Energy Limited, sef datblygwr cymunedol bach yng Nghymru, yn derbyn benthyciad gwerth £785,000 ynghyd â grant gwerth £25,000 tuag at adeiladu generadur gwynt 500kw yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin. Bydd gweithredu'r tyrbin yn creu incwm o hyd at £2.5 miliwn i'r gymuned gydol oes y prosiect. Y bwriad yw defnyddio'r arian ar gyfer cyllido rhagor o gynlluniau ym maes effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy.

Ffynhonnell – datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru, 25 Medi 2015

3.25 Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod y Panel wedi craffu'r gwarged disgwyliedig hwn na bod yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi cyflawni archwiliadau annibynnol. Mae gennym bryderon neilltuol am hyn oherwydd roedd maint y gwarged yn seiliedig ar fodel na chafodd ei ddatblygu i bwrpas diwydrwydd dyladwy gan unigolyn oedd â gwrthdaro budd heb ei liniaru. Roedd y ffigur hwn yn ddwbl y rhagamcan o £1.3 miliwn a ddefnyddiwyd gan Ynni Sir Gâr Cyf ei hun yn ei ail Gynnig Cyfranddaliadau a gyhoeddwyd yn Ebrill 2016, gweler y dyfyniad isod:



**Community Economic Impact**

The project will generate a range of economic impacts, including the following key benefits:

1. Establishing a scheme supporting local householders, businesses and community organisations with grants
2. Supporting the development of Carmarthenshire based renewable energy projects generating further income for the area
3. Payments to Seren Renewables and local landowner, sustaining both a local business and farm
4. Interest paid to Members

The Society has made financial forecasts on a number of different yield and export value scenarios, with the most conservative scenario indicating that it will be able to establish a community fund with an income in excess of £1,300,000 (one million three hundred thousand) over 25 years.

The Society has adopted a detailed Community Benefits Policy, and has also had further research provided by The Energy Saving Trust on the wider economic benefits and job creation associated with funding energy efficiency and micro-renewable installations. Please see our website for more details.

**Legal Agreements**

The Society has taken up a 28 year Lease on the site which includes provision for occupying the land, grid connection access, and access for ongoing operation and maintenance.

13

Ffynhonnell – Cynnig Cyfranddaliadau Ynni Sir Gâr Cyf

3.26 Dywedodd Mr Ferguson-Walker wrthym fod y model Sharenergy[10] a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r gwarged o £1.3 miliwn yn sicr yn 'llawer mwy llym, ac yn llai hyblyg o ran sut y mae gwarged yn cael ei gyfrifo'.

10 Mae Sharenergy yn helpu i dyfu'r sector ynni cymunedol yn y DU. Mae'n defnyddio adnoddau presennol lle mae hynny'n bosib, ac yn gweithio i feithrin gallu a chapasiti lleol. Mae'n ceisio peidio â gwneud gwaith y gallai rhywun arall ei wneud yn well.

## Ni chafodd risg y gwrthdaro budd posib oedd yn gysylltiedig â chyflogaeth Dr Lewis fel rheolwr ar Gronfa Ynni Cymunedol ei nodi gan y Panel Annibynnol

3.27 Dangosodd ein hadolygiad o gofnodion cyfarfodydd Ynni Sir Gâr Cyf fod Dr Lewis yn bresennol ar gyfer trafodaethau ariannol er y gallai hyn fod wedi creu gwrthdaro posib â'i gyflogaeth fel Rheolwr ar Gronfa Ynni Cymunedol mewn banc. Nid yw'r cofnodion yn dangos bod unrhyw fudd wedi cael ei ddatgan. Ni chafodd cyflogaeth Dr Lewis gyda'r banc ei nodi fel risg gwrthdaro budd posib yn y papur i'r Panel. Yn ein barn ni, dylai'r risg bosib hon fod wedi cael ei hadlewyrchu yn y papur briffio a baratowyd ar gyfer y Panel Annibynnol, a dylai mesurau lliniaru priodol fod wedi cael eu hystyried a'u hadnabod.

Rhan 4

# Fel perchennog y cynllun, roedd Llywodraeth Cymru wedi dibynnu gormod ar drefniadau'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar gyfer rheoli'r risgiau a nodwyd



4.1 Oherwydd bod yr elfen fenthyciad o £785,000 ar gyfer CELT2 yn llawer mwy na'r £250,000 yr oedd gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni awdurdod dirprwyedig i'w gymeradwyo, ac roedd angen cymeradwyo'r prosiect yn ddioed, fe wnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru pa gamau a gymerodd ei swyddogion i fodloni eu hunain bod yr Ymddiriedolaeth yn wir wedi gweithredu i liniaru'r risgiau a nodwyd cyn rhyddhau'r arian. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod y camau lliniaru hyn wedi cael eu monitro drwy eu cyswllt dyddiol â rheolwr y cynllun. Fodd bynnag, ni allai swyddogion Llywodraeth Cymru ddangos unrhyw dystiolaeth ddogfennol i ni i brofi hyn. Ychwaith nid ydym wedi gallu sefydlu o'r dogfennau sydd ar gael a wnaeth yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni roi unrhyw sicrwydd i Lywodraeth Cymru bod y camau lliniaru yr oedd am eu cymryd wedi cael eu gweithredu.

4.2 Mae rhan nesaf yr adroddiad hwn yn edrych ar y craffu annibynnol a wnaed o'r manteision cymunedol disgwyliedig, ac ar ansawdd y cyngor ysgrifenedig a roddwyd i'r Gweinidog yn sgîl hynny. Yn benodol aseswn a wnaeth y cyngor hwnnw nodi'n glir beth oedd risgiau a manteision y cais ar gyfer CELT2.

# Rhan 5

## Roedd y wybodaeth a roddwyd i'r Gweinidog er mwyn cytuno'r cyllid ar gyfer CELT2 yn anghyflawn ac anghytbwys



5.1 Roedd y Panel Annibynnol wedi asesu a chymeradwyo cais Ynni Sir Gâr Cyf am grant ar 27 Gorffennaf 2015. Roedd hefyd wedi cymeradwyo'r cais am fenthyciad ar gyfer ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Gweinidog, drwy bapur wedi'i baratoi gan swyddogion Llywodraeth Cymru.

5.2 Ar 12 Awst 2015, cyflwynodd swyddogion Llywodraeth Cymru bapur Cyngor Gweinidogol[11] yn gofyn i'r Gweinidog gymeradwyo argymhelliad y Panel i 'roi cyllid i brosiect ynni adnewyddadwy cymunedol y tu allan i gwmpas cychwynnol y rhaglen'. Roedd y papur Cyngor Gweinidogol yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

a bod y ffigur o £785,000 yn llawer mwy na'r trothwy o £250,000 ar gyfer cynlluniau. Fodd bynnag, byddai'n golygu y gallai grŵp cymunedol ddod yn berchen ar y prosiect;

b Roedd gan Ynni Sir Gâr Cyf bolisi manteision yn egluro sut y byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio;

c pe bai Ynni Sir Gâr Cyf yn methu â dod i gytundeb, byddai'r benthyciad yn cael ei ad-dalu i Lywodraeth Cymru. Pe bai Carmarthenshire Energy yn prynu'r prosiect ond yn methu â chyrraedd y targed o £500,000 o gyfranddaliadau, oedd yn eithaf uchel ar gyfer cynigion cyfranddaliadau o'r fath ond nid yn afrealistig, byddai angen benthyciad masnachol mwy arnynt; a

ch roedd y Panel Annibynnol wedi craffu'r cynnig yn ofalus ac wedi cymeradwyo'r benthyciad gyda nifer o amodau. Roedd swyddogion felly wedi argymell bod y Gweinidog yn cymeradwyo argymhelliad y Panel.

5.3 Ystyriwn fod y papur a gyflwynwyd i'r Gweinidog yn cynnwys gwybodaeth briodol am y risgiau ariannol oedd yn gysylltiedig â rhoi cyllid i Ynni Sir Gâr Cyf. Fodd bynnag, rydym yn bryderus na soniodd y papur o gwbl am y risgiau llywodraethu ehangach y byddai'r prosiect yn eu cyflwyno.

5.4 Ni chafodd y Gweinidog wybod gan y swyddogion am unrhyw un o'r materion gwrthdaro budd gwirioneddol a phosib a nodwyd, ac ni wnaethant ychwaith egluro sut y cawsant eu rheoli i liniaru'r risg i lefel dderbyniol. Yn wir, dywedodd y cyngor yn hytrach nad oedd y cais yn codi unrhyw fater o reoleidd-dra na phriodoldeb na'n cynnwys unrhyw beth newydd neu gynhennus'.

5.5 Mae'n glir o'r papur Gweinidogol fod y cyfeiriad at y byddai'r prosiect yn 'debygol' o greu £2.6 miliwn o warged er mantais i'r gymuned yn bwysig i'r penderfyniad a wnaed. Fodd bynnag, ni eglurodd y papur fod y ffigur hwn yn seiliedig ar fodel na chafodd ei ddatblygu i bwrpas diwydrwydd dyladwy, ac nad oedd yn cynnwys unrhyw gafeat o ran pa mor ddibynadwy oedd.

11 Cyngor Gweinidogol (MA) – cyflwyniad ysgrifenedig ffurfiol i'r Gweinidog yn gofyn am ei ganiatâd neu ei chaniatâd i ymrwymo arian cyhoeddus

5.6 O dan yr amgylchiadau, ystyriwn fod y papur briffio a roddwyd i'r Gweinidog gan ei swyddogion yn anghyflawn ac yn anghytbwys. Dylai'r papur briffio fod wedi:

a nodi'r risgiau oedd yn gysylltiedig â'r materion gwrthdaro budd a rhoi sicrwydd eu bod wedi eu lliniaru i lefel dderbyniol; a

b chyflwyno ystod o ganlyniadau posib ar gyfer y gwarged disgwyliedig (drwy wneud dadansoddiad sensitifrwydd) yn hytrach na dim ond dyfynnu'r ffigur o £2.6 miliwn a roddwyd yn y cais.

5.7 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud sylwadau mewn adroddiadau blaenorol ganddo ar ddrafftio a chynnwys cyflwyniadau Gweinidogol; er enghraifft roedd yr adolygiad diweddar o Gylchdaith Cymru'n nodi bod gwybodaeth allweddol wedi'i hepgor o'r papurau a gyflwynwyd.

5.8 Nid yw'n bosib i ni sefydlu a fyddai cynnwys ystod o amcan-ffigurau ar gyfer y gwarged disgwyliedig neu beidio wedi effeithio ar benderfyniad y Gweinidog i gymeradwyo'r arian cyhoeddus ar gyfer prosiect CELT2. Fodd bynnag, mae'r gwendidau hyn yn cyflwyno rhywfaint o risg i enw da Llywodraeth Cymru oherwydd nid yw'n gallu dangos y cymrodd gamau priodol i fodloni ei hun bod ei phartner cyflawni wedi lliniaru'r risgiau oedd yn gysylltiedig â'r cais am gyllid.

5.9 Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod y cyngor Gweinidogol, yn eu barn hwy, wedi cyflwyno'r cynnig a'r prif risgiau oedd yn amlwg i'r Panel Annibynnol ac i'r swyddogion. Y risgiau hyn oedd:

a bod cyllid masnachol yn cael ei ddadleoli;

b colli arian cyhoeddus pe bai'r prosiect yn methu; a

c unrhyw fethiant i sicrhau bod y manteision o'r cynllun yn trosglwyddo i'r gymuned leol.

Roeddent yn ystyried y cynlluniwyd ar gyfer y risgiau hyn a'u bod wedi'u rheoli'n effeithiol.

5.10 O ran y materion gwrthdaro budd, mae swyddogion Llywodraeth Cymru o'r farn bod y rhain wedi cael eu rheoli'n foddhaol gan y mesurau lliniaru a'u bod yn cael sylw gan waith parhaus y Gwasanaeth Ynni Lleol yn cefnogi grwpiau cymunedol ar draws Cymru i ddatblygu eu capasiti llywodraethu.

5.11 Mae Llywodraeth Cymru felly o'r farn bod ei hymyrraeth, a throsglwyddo CELT2 i berchnogaeth y gymuned, wedi arwain at gadw'r manteision yn y gymuned leol ac y byddent fel arall wedi mynd i berchennog masnachol. Mae'r arian benthyciad yn cael ei ad-dalu i bwrs y wlad i'w fuddsoddi mewn mwy o brosiectau ynni cymunedol.

# Atodiad 1 – Ynni Sir Gâr Cyf

In 2004 individuals with an interest in community-led renewable energy generation established the Carmarthenshire Energy Action Group. Its aims were to develop sustainable energy projects to combat climate change and boost economic development in the county.

When the Welsh Government launched the Ynni'r Fro Programme, Carmarthenshire Energy Action recognised that a more sustainable mechanism was needed to deliver Carmarthenshire's community renewable energy aspirations. Therefore the group began consulting with communities, businesses, councillors and officers, this last for a year. After the consultation process, the group decided to form the Carmarthenshire Energy Trust, as an Unincorporated Association.

Carmarthenshire Energy Trust evolved over time and in December 2012, registered as an independent Industrial & Provident Society (IPS) for Community benefit; known as Carmarthenshire Energy Ltd.

The objects of Carmarthenshire Energy Ltd are to:

> "carry on any business for the benefit of the community by the promotion of energy conservation and renewable (low carbon) energy production in the community of Carmarthenshire."

Ffynhonnell: Gwefan Ynni Sir Gâr Cyf

# Atodiad 2 – Cymorth gan Lywodraeth Cymru i gynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol drwy ei phartner cyflawni, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

Yn Ionawr 2010 penderfynodd Llywodraeth Cymru gymeradwyo rhaglen pum mlynedd, Ynni'r Fro, i annog prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol yng Nghymru. Penododd Llywodraeth Cymru'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni dan gontract i roi cymorth i'r cynlluniau hyn. Roedd y penodiad yn seiliedig ar ystod o fesurau ariannol a di-ariannol, gan gynnwys:

- cyngor a chymorth technegol i brosiectau ynni adnewyddadwy bach a chanolig ar draws yr ystod lawn o dechnolegau trydan a gwres;
- cyngor a chymorth gyda phroblemau eraill sy'n wynebu grwpiau cymunedol:
    - gyda datblygu a rheoli'r prosiectau hyn
    - helpu cymunedau i ennill yr hawl i fod yn rhan o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy mwy
    - llywodraethu, ymgysylltu, hyder gyda rheoli a buddsoddi arian; a
    - gweithio gyda datblygwyr.
- grant ar gyfer y costau technegol paratoadol;
- cefnogi dulliau a thechnolegau arloesol; a
- cyllid a grantiau fel bod prosiect yn gallu symud at y cam adeiladu.

Pan ddaeth Ynni'r Fro i ben ym mis Mawrth 2015 ar ôl gwario £4.5 miliwn, penderfynodd Llywodraeth Cymru roi trefniadau interim yn eu lle; y Rhaglen Cymorth Ynni Adnewyddadwy. Ei nod oedd parhau i gefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy bach a chanolig. Byddai'n sicrhau bod llif y datblygiadau'n parhau ac yn helpu i sicrhau y byddai unrhyw raglen i olynu Ynni'r Fro yn darparu allbwn yn fuan iawn yn y rhaglen newydd. Daeth y trefniant interim hwn i ben ar 31 Rhagfyr 2015. Y rhaglen lawn i olynu Ynni'r Fro yw'r Cynllun Ynni Lleol a ddechreuodd ar 1 Ionawr 2016.

Bu Llywodraeth Cymru'n ystyried prosiect (CELT2) Ynni Sir Gâr Cyf yn ystod haf 2015 o dan y trefniadau interim uchod.

# Atodiad 3 – Trefn a dulliau ein harchwiliad

## Cwmpas

a Rydym wedi cyflawni adolygiad archwilio o’r cymorth ariannol a dderbyniodd Ynni Sir Gâr Cyf gan Lywodraeth Cymru.

b Nod ein harchwiliad oedd sefydlu’r ffeithiau wrth wraidd y pryderon a godwyd mewn gohebiaeth a anfonwyd at yr Archwilydd Cyffredinol. Dim ond y grant paratoadol a’r cais am fenthyciad ar gyfer CELT2 yr ydym wedi eu hadolygu felly.

## Dulliau


a Wrth gyflawni’r adolygiad rydym wedi casglu ac adolygu tystiolaeth ddogfennol gan Lywodraeth Cymru, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, Ynni Sir Gâr Cyf ac o ffynonellau cyhoeddus fel Tŷ’r Cwmnïau.

b Rydym wedi cwrdd â swyddogion yn Llywodraeth Cymru a hefyd wedi holi unigolion allweddol yn gysylltiedig â phrosiect CELT2. Rydym hefyd wedi cyfarfod ac wedi adolygu gwybodaeth a roddwyd i ni gan aelodau o’r cyhoedd, ac wedi ymweld â safle tyrbin gwynt CELT2 yn Salem, Sir Gâr.

c Rhoesom gyfle i Lywodraeth Cymru ac i drydydd partïon penodedig ddarparu sylwadau ar ein hadroddiad cyn ei gyhoeddi, o ran ei gywirdeb ffeithiol, ei gyflawnder a’i gydbwysedd.

ch Mae ein hadroddiad cyhoeddedig yn cyflwyno’r ffeithiau sylfaenol, casgliadau’r Archwilydd Cyffredinol ynghyd ag argymhellion penodol i Lywodraeth Cymru, i’w hystyried gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

# Atodiad 4 – Amserlen



**Gorff 2015**

**12 Gorffennaf** - Cyflwyno'r cais am grant o £25,000.

**14 Gorffennaf** - Drafftio papur ar gyfer y Panel Annibynnol.

**27 Gorffennaf** - Penderfyniad y Panel Annibynnol.

**Awst 2015**

**12 Awst** - Cyflwyno'r cais wedi'i lofnodi am fenthyciad o £785,000.

Llywodraeth Cymru'n cyflwyno papur cyngor i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (ar y pryd).

**14 Awst** - Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn cymeradwyo'r grant a'r benthyciad.

**Medi 2015**

**11 Medi** - Llythyr yn cymeradwyo'r benthyciad gan Lywodraeth Cymru i Ynni Sir Gâr Cyf.

**25 Medi** - Cyhoeddiad gan y Gweinidog (datganiad i'r wasg).

**Tach 2015**

**30 Tachwedd** - Ynni Sir Gâr Cyf yn cymryd rheolaeth o'r safle.

**Rhag 2015**

**9 Rhagfyr** - Yr arian benthyciad yn cael ei roi i Ynni Sir Gâr Cyf.

**Ion 2016**

Mr Ferguson-Walker yn ymddiswyddo o Fwrdd Ynni Sir Gâr Cyf.

**11 Ionawr** - Grant paratoadol yn cael ei dalu i Ynni Sir Gâr Cyf.

**Ebrill 2016**


Ynni Sir Gâr Cyf yn mabwysiadu Polisi Gwrthdaro Budd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.

**Mai 2016**

Aelodau Bwrdd Ynni Sir Gâr Cyf yn cyflwyno datganiadau budd.

**Gorff 2016**

Mr Hack yn ymddiswyddo o Fwrdd Ynni Sir Gâr Cyf.



**Medi 2016**

CELT2 yn weithredol.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru